GWEDDÏO DROS ETHOLIAD SENEDD CYMRU

engage26

Mae penderfyniadau ar sawl agwedd o fywyd yng Nghymru, megis iechyd, addysg, tai, trafnidiaeth a'r amgylchedd, yn cael eu gwneud gan y Senedd. Bydd y 96 Aelod gaiff eu hethol Ddydd Iau, 7 Mai, yn chwarae rhan hanfodol yn gwirio cynlluniau a gwariant Llywodraeth Cymru, er lles pawb yng Nghymru.



'Bendigedig fyddo enw Duw yn oes oesoedd; eiddo Ef yw doethineb a nerth. Ef sy'n newid amserau a thymhorau; yn diorseddu brenhinoedd a'u hadfer, yn rhoi doethineb i'r doeth a gwybodaeth i'r deallus. Ef sy'n datguddio pethau dwfn a chuddiedig…'
Daniel 2:20-22 (BCN)

WYTHNOS UN 12-18 Ebrill

ETHOLAETHAU LLEOL A PHLEIDLEISWYR

SUL
Arglwydd, boed i lawer o eglwysi yng Nghymru estyn dylanwad Cristnogol yn yr etholiad hwn: drwy gredinwyr sy'n ymgeiswyr, hystingau a digwyddiadau eraill a gyda chyfathrebiadau print, wedi'u darlledu a thrwy gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â gweddïo. Yn enw Iesu. **Amen.**

LLUN
Dduw trefnus, rho gymorth i bleidleiswyr ddeall y newidiadau pwysig i'r Senedd, gyda chynnydd yn yr Aelodau a threfniadau pleidleisio newydd. Gofynnwn am ddoethineb a dirnadaeth, yn enwedig i'r rhai 16 ac 17 oed sy'n cael eu cynnwys bellach. Drwy Dy ras. **Amen.**

MAWRTH
Dad, diolch i ti am y gwaith caled o greu 16 etholaeth newydd - yn paru'r 32 etholaeth i Senedd y DU - gan gydnabod ffiniau naturiol a chysylltiadau cymunedol. Gweddïwn y bydd y newidiadau hyn yn digwydd yn esmwyth. Yn unol â'th ewyllys Di. **Amen.**

MERCHER
Fugail Da, cyflwynwn i ti bob un sy'n byw yn ein hetholaeth leol ein hunain a gweddïwn y bydd y rhai sy'n dymuno cwrdd ag ymgeiswyr a rhannu eu pryderon yn cael y cyfle i wneud hynny gydag eglurder, cwrteisi a pharch. Yn enw Iesu. **Amen.**

'Y mae holl ffyrdd dyn yn bur yn ei olwg ei hun, ond y mae'r Arglwydd yn pwyso'r cymhellion. Amlyga dy weithredoedd i'r Arglwydd, a chyflawnir dy gynlluniau. Gwnaeth yr Arglwydd bob peth i bwrpas, hyd yn oed y drygionus ar gyfer dydd adfyd.' **Diarhebion 16:2-4 (BCN)**

IAU
Dduw cyfiawnder, amlyga unrhyw ddrwgweithredoedd yn ystod y pleidleisio, megis llwgrwobrwyo, ymddygiad a chyfathrebu bygythiol, camddefnyddio pleidleisiau drwy'r post neu drwy ddirprwy a 'phleidleisio teuluol' sy'n amddifadu rhywun o breifatrwydd a dewis personol. Yn Dy dosturi. **Amen.**

GWENER
O Arglwydd, rydyn ni mor ddiolchgar i gael byw mewn democratiaeth lle mae gan pob un ohonom yr hawl i bleidleisio. Gweddïwn y bydd y broses etholiadol yn rhydd o unrhyw amhariad neu weithgaredd twyllodrus, am gael canran uchel yn pleidleisio a chanlyniad teg. Yn enw Crist. **Amen.**

SADWRN
Dad, fe gofiwn y rhai fydd yn ei chael hi'n heriol i fynychu gorsaf bleidleisio ar 7 Mai oherwydd iechyd, symudedd, amgylchiadau teuluol neu faterion eraill. Helpa nhw i drefnu dulliau amgen i bleidleisio fydd yn eu siwtio nhw. Yn enw Iesu. **Amen.**

Yr 16 etholaeth Senedd ar gyfer etholiad 2026:

Bangor Conwy Môn
Clwyd
Fflint Wrecsam
Gwynedd Maldwyn
Ceredigion Penfro
Sir Gaerfyrddin
Gŵyr Abertawe
Brycheiniog Tawe Nedd
Afan Ogwr Rhondda
Pontypridd Cynon
Merthyr
Blaenau Gwent Caerffili
Rhymni
Sir Fynwy Torfaen
Casnewydd Islwyn
Caerdydd Penarth
Caerdydd Ffynnon Taf
Pen-y-bont Bro
Morgannwg

WYTHNOS DAU 19-25 Ebrill

MATERION MANIFFESTO Y PLEIDIAU

SUL Dad, rhoi ddewrder a doethineb i eglwysi, sefydliadau ac unigolion sy'n rhan o 'ddiwinyddiaeth gyhoeddus'* seiliedig ar yr efengyl ac sy'n barod i drafod materion pwysig sydd â goblygiadau moesol a moesegol. Yn enw Crist. **Amen.**

LLUN Dduw rhyddid, lle mae materion maniffesto'n ddadleuol, boed i ryddid mynegiant, crefydd a chred gael ei gynnal a boed i gyfathrebu bygythiol a llawn casineb gael eu gwahardd. Gofynnwn i'r trafod fod yn barchus ac yn rhesymol. Drwy Dy ras. **Amen.**

MAWRTH Feddyg Trugarog, cyflwynwn i Ti ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol. Rho gymorth i bleidiau gwleidyddol Cymru i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy i faterion megis oedi mewn gofal brys, prinder staff ac anhawster yn cael at wasanaethau. Yn enw Iesu. **Amen.**

MERCHER Arglwydd trugaredd, boed i gynigion y maniffestos i leddfu pwysau ar y cartrefi tlotaf fod yn rhai teg, yn ymarferol o ran arian ac yn effeithiol wrth ddarparu cymorth gwirioneddol i'r rhai mewn mwyaf o angen. Datgela unrhyw ddiffygion mewn cynlluniau o'r fath. Yn enw Iesu. **Amen.**

'Barnwch yn deg a dangoswch drugaredd a thosturi tuag at eich gilydd; peidiwch â gorthrymu'r weddw, yr amddifad, yr estron a'r tlawd.' **Sechareia 7:10 (BCN)**

IAU Dad, gweddïwn y bydd maniffestos y pleidiau yn mynd i'r afael â hynt plant agored i niwed ac eraill sy'n cael eu heffeithio gan deuluoedd yn chwalu, problemau addysg, camdriniaeth, heriau iechyd meddwl a sefyllfaoedd anodd eraill. Yn enw Crist. **Amen.**

GWENER **Diolch Arglwydd am y rhai sydd, yn dilyn llawer o ymgynghoriadau cyhoeddus, wedi gweithio i gyflwyno diwygiadau i'r Senedd yn barod ar gyfer yr etholiad hwn.** Boed i'r rhain gael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus er lles holl bobl Cymru. Drwy Dy ras. **Amen.**

SADWRN Dduw'r Creawdwr, gweddïwn dros addewidion pleidiau i weithredu polisïau 'gwyrdd' - buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, technoleg a diwydiant glân, lleihau llygredd a gwastraff a mesurau eraill; gad iddynt fod yn ymarferol ac yn dryloyw. Yn unol â'th ewyllys Di. **Amen.**

*'Mae Diwinyddiaeth Gyhoeddus yn cynrychioli'r argyhoeddiad fod gan ffydd Gristnogol a myfyrdod ddiwinyddol ran hanfodol a pharhaus i'w chwarae wrth siapio disgwrs gyhoeddus, polisïau a bywyd dinesig o fewn cymdeithas gyfoes'. cytun.co.uk)

Mae prif faterion maniffestos yn debygol o gynnwys: Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Yr Economi a Threthu, Ffermio a'r Amgylchedd, Diwygiadau i'r Senedd, Plant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth Leol, Cyllid i'r Celfyddydau ac ati, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

WYTHNOS TRI 26 Ebrill – 2 Mai

YMGEISWYR I'R SENEDD

SUL Arglwydd Iesu, cyflwynwn i Ti Eglwysi Cymru, o wahanol enwadau a grwpiau, ond yn unedig yn eu cariad tuag at atat Ti. Ysbrydola Dy bobl i lefaru gwirionedd ac i weddïo'n ffyddlon dros ddynion a menywod sy'n ceisio gwasanaethu o fewn gwleidyddiaeth. Drwy Dy ras. **Amen.**

LLUN Dduw cyfiawnder a gwirionedd, boed i bawb sy'n sefyll yn yr etholiad gael eu gwarchod rhag unrhyw rai allai geisio eu niweidio neu darfu arnynt a rho iddynt egni a nerth yn ystod yr wythnosau caled o ymgyrchu. Yn Dy drugaredd. **Amen.**

MAWRTH O Dduw, yn hwn y seithfed etholiad datganoledig ers 1999, gweddïwn dros y tri arweinydd plaid sy'n fwyaf tebygol o fod mewn sefyllfaoedd o arwain: Llafur, Plaid Cymru a Reform UK. Helpa nhw i gyfathrebu'n onest ac yn eglur. yn enw Crist. **Amen.**

MERCHER Dad, gweddïwn dros ymgeiswyr o bleidiau gwleidyddol llai a'r rhai sy'n annibynnol i allu gystadlu'n deg gyda'r ymgeiswyr o'r pleidiau mwy. Cadw unrhyw rai sydd â safbwyntiau eithafol annerbyniol rhag achosi aflonyddwch. Drwy Dy ras. **Amen.**

'I'r diben hwn hefyd yr ydym bob amser yn gweddïo drosoch chwi, ar i'n Duw ni eich cyfrif yn deilwng o'i alwad, a chyflawni trwy ei nerth bob awydd am ddaioni a phob gweithred o ffydd.' **2 Thesaloniaid 1:11,12 (BCN)**

IAU Arglwydd, cofiwn am deuluoedd ymgeiswyr yn ystod y cyfnod anodd hwn o ymddangosiadau cyhoeddus, teithio, canfasio a dyletswyddau eraill. Rho gysur yn arbennig i'r plant wrth i'w rhieni fod o dan gymaint o bwysau. Yn Dy drugaredd. **Amen.**

GWENER **Diolch i Ti, Dad, am Gristnogion sy'n sefyll fel ymgeiswyr,** llawer ohonynt am y tro cyntaf. Gweithiau yn a thrwy eu bywydau yn ystod y cyfnod ymgyrchu hwn a boed i'r rhai gaiff eu hethol i'r Senedd Dy wasanaethu Di a'u cenedl. Yn enw Iesu. **Amen.**

SADWRN Arglwydd trugarog, rho Senedd Cymru a llywodraeth newydd fydd yn cynnwys pobl o allu a gweledigaeth eithriadol, yn ymroddedig i unplygrwydd a doethineb. Boed i lawer ddod i gredu ynot Ti, i weddïo ac i ddilyn Dy ffyrdd. Yn enw Iesu. **Amen.**

Y prif bleidiau gwleidyddol a'u harweinwyr sy'n sefyll yn etholiad y Senedd:

Plaid Cymru - Rhun ap Iorwerth
Plaid Werdd Cymru - Anthony Slaughter
Reform UK - Dan Thomas
Plaid Geidwadol Cymru - Darren Millar
Llafur Cymru - Eluned Morgan
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Jane Dodds.



WYTHNOS PEDWAR 3 – 9 Mai

DIWRNOD YR ETHOLIAD - AC WEDI HYNNY

SUL

Arglwydd yr Eglwys, boed i'th bobl di sydd wedi dod ynghyd heddiw weddïo am yr etholiad. Coda fyddin gref o eiriolwyr ffyddlon ar draws Cymru, wedi eu llenwi â'th Ysbryd Di i roi i ti y maw, y ceisiadau a'r diolch drwy'r blynyddoedd i ddod! Drwy Dy ras. **Amen.**

LLUN

O Dduw ein craig, gweddïwn dros y rhai sy'n rhan o waith diogelwch o gwmpas Dydd yr Etholiad. Boed iddynt weithio gyda'i gilydd yn ofalus i atal unrhyw ymdrechion i amharu ar y broses ddemocrataidd yn cynnwys ymosodiadau seiber a thwyll pleidleisio. Yn enw Iesu. **Amen.**

MAWRTH

Arglwydd, gweddïwn y bydd llawer o bleidleiswyr yn troi allan ddydd Iau ac y bydd canlyniad yr etholiad yn adlewyrchu ewyllys pobl Cymru. Rho gymorth i'r rhai yn y cyfryngau i fod yn deg yn eu sylw ar y dyddiau olaf hyn. Yn enw Crist. **Amen.**

MERCHER

Dad, bendithia pob un sy'n gweithio i wneud i ddydd yr etholiad fynd yn esmwyth: yn gosod y gorsafoedd pleidleisio, yn paratoi'r papurau pleidleisio, yn helpu pleidleiswyr ac yn gweithredu fel Swyddogion Canlyniadau, Goruchwylwyr a rhai sy'n cyfrif er mwyn sicrhau bod yr Etholiad yn un teg. Drwy Dy ras. **Amen.**

'Yn y lle cyntaf, felly, yr wyf yn eich annog bod ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu dros bob dyn, dros frenhinoedd a phawb sydd mewn awdurdod, inni gael byw ein bywyd yn dawel a heddychlon, yn llawn duwioldeb a gwedduster. Peth da yw hyn, a chymeradwy gan Dduw, ein Gwaredwr.' **1 Timotheus 2:1-4 (BCN)**

IAU

DIWRNOD YR ETHOLIAD Dduw trugaredd a gras, rho gymorth i bob person bleidleisio yn ôl ei gydwybod a gyda doethineb. Ymddiriedwn ynot Ti am y canlyniad, canys yr wyt Ti'n gwybod pob peth a phwrpas i'r rhai sy'n Dy garu Di nawr ac hyd dragwyddoldeb. **Amen.**

GWENER

Arglwydd, wrth i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, cofiwn am ymgeiswyr sy'n siomedig, yn enwedig cyn Aelodau a'u staff. Rho gymorth iddynt, a rho ddoethineb a nerth i bob un sydd wedi cael ei ethol yn eu hetholaethau lleol. Yn Dy drugaredd. **Amen.**

SADWRN

Goruchaf Dduw, rho drefn ar gamau'r rhai sydd bellach wedi dod yn arweinwyr gwleidyddol yng Nghymru. Gweddïwn dros y Prif Weinidog a'r Cabinet newydd, ynghyd â phob Aelod o'r Senedd i 'weithredu cyfiawnder, i garu trugaredd ac i gerdded yn ostyngedig.' Yn enw Iesu. **Amen.**

Mae pob Cyfarfod Llawn o'r Senedd yn cael ei gynnal yn y Siambr, siambr drafod gron y Senedd. Mae lle i 120 o aelodau'r cyhoedd yn yr oriel. Mae gan aelodau derfynellau cyfrifiadur i wneud ymchwil ar gyfer dadleuon ac i weithio pan na fyddant yn cael eu galw i siarad. Mae clustffonau ar gael ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Mae sgriniau yn y Siambr yn gallu cael eu defnyddio i ddangos cyflwyniadau sy'n berthnasol i eitem benodol o fusnes.

engage26



CARE (Christian Action Research & Education)
Chief Executive Ross Hendry | Co-Founder Rev Lyndon Bowring | **020 7233 0455** |
mail@care.org.uk

CARE is a company limited by guarantee registered in England and Wales at 53 Romney Street, London, SW1P 3RF Company No: 3481417
Charity No: 1066963
Scottish Charity No: SC038911

CAREORGUK **CARE.ORG.UK**